**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2018

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei osod ac i Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o offerynnau statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Cafodd Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2018 ("Rheoliadau 2018") eu gosod gerbron pwyllgorau sifftio Dau Dŷ'r Senedd ar 4 Rhagfyr 2018. Mae'r rheoliadau i'w gweld yma:

https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments

**Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i Amcan**

3. Amcan yr OS yw mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol ynghyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae hefyd yn cynnwys diwygiadau o ran gweithredadwyedd.

4. Mae'r OS hefyd yn gwneud diwygiadau i'r canlynol:
   - Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990;
   - Deddf yr Amgylchedd 1995;
   - Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999

**Darpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS**

5. Dyma'r diwygiadau y mae Rheoliadau 2018 yn eu gwneud i'r darpariaethau canlynol:

   - Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990: adrannau 7, 19(3), 113(5), 116(2), 140(4)(a), 142(2)(a), a 156 – mae'r diwygiadau'n gwneud newidiadau technegol fel cynnwys cyfraith yr UE a ddargedwir neu rwymedigaeth yr UE a ddargedwir neu roi cyfeiriadau at y DU yn eu lle a hepgor cyfeiriadau at Gytuniadau'r UE.

   - Deddf yr Amgylchedd 1995: adrannau 40(d), 41(a), 41A(b), 56(1)(b), 80(2)(a), 85(5)(a), 86(8)(a), 87(1)(b)(i), 93(3)(a), 94(2)(a)(i), 108(15)(c), 111(5)(e), a 122 – mae'r diwygiadau'n mewnosod cyfeiriadau at ddeddfwriaeth ddomestig fel Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru), yn diwygio cyfeiriadau fel eu bod yn darllen fel rhwymedigaethau'r UE a

ddargedwir, gan newid y diffiniad o drwydded amgylcheddol i gyfeirio at ddeddfwriaeth ddomestig fel Rheoliadau'r Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2012.

- Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999: Atodlen 1, paragraffau 3(b), 20(1)(b) a 20(1)(c) - mae'r diwygiadau'n diogelu cwmpas yr is-ddeddfwriaeth sy'n rhoi pŵer i adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999. Mae cyfeiriad at rwymedigaethau'r UE a ddargedwir yn cymryd lle'r cyfeiriad ym mharagraff 3 at rwymedigaethau o dan gytuniadau'r UE. Mae geiriad paragraff 20 yn cael ei ddiwygio fel nad yw bellach yn gweithredu mewn modd sy'n cyfeirio at adran 2 o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972.

6. Mae'r newidiadau a bennir ym mharagraff 5 yn ymwneud â swyddogaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a allai fod yn destun Bil gan y Cynulliad Cenedlaethol.

7. Mae Adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ynghylch unrhyw bwnc ac eithrio'r rhai sydd wedi'u cadw'n benodol i Senedd y DU yn Atodlen 7A i'r Ddeddf. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r amgylchedd.

**Pam mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

8. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Lesley Griffiths AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**

Rhagfyr 2018